Gwybodaeth i Fyfyrwyr - **AI (Deallusrwydd Artiffisial ac Asesiadau)**

Beth yw AI (Deallusrwydd Artiffisial)?

Mae AI yn sefyll am ddeallusrwydd artiffisial a gellir ei ddefnyddio i greu testun, delweddau, fideos, cerddoriaeth a gwaith celf yn seiliedig ar y cyfarwyddiadau sy'n cael ei fewnbynnu i'r offeryn AI.

Beth yw offeryn AI?

Offer AI yw rhaglenni fel ChatGPT, Snapchat My AI, Google a Google translate. Mae llawer mwy!*

*Mae'r rhestr o gyflenwyr cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag AI er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n golygu bod y CGC na chyrff dyfarnu yn eu cymeradwyo. Cyfrifoldeb pob canolfan yw ymchwilio i unrhyw gyflenwyr a ddefnyddir a'u gwirio, gan gynnwys unrhyw delerau ac amodau sy'n llywodraethu gwerthiant neu ddefnydd cynhyrchion y cyflenwr. Nid yw'r rhestr a ddarperir yn gynhwysfawr.

Pryd alla i ddefnyddio AI?

- Efallai y bydd eich athrawon yn defnyddio AI yn y dosbarth wrth addysgu'r cwrs, ond cofiwch nad arholiad yw'r gwaith sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth!
- Mae rhai asesiadau lle caniateir defnyddio AI – bydd eich athrawon yn dweud wrthych a ydych yn cael defnyddio offeryn AI ai peidio.
- Cofiwch, mae'r rheolau'n wahanol ar gyfer gwahanol asesiadau a phynciau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio gyda'ch athrawon yn gyntaf!
- Os caniateir defnyddio offeryn AI, rhaid i chi ddatgan** pa offer AI rydych wedi'u defnyddio a nodi unrhyw ddeunydd a gynhyrchwyd gan yr offeryn AI rydych wedi'u defnyddio yn eich gwaith. Os na fyddwch yn datgan y defnydd o AI, bydd hyn yn cael ei ystyried yn fath o dwyllo.

Pryd na allaf ddefnyddio offeryn AI?

- Ni ellir defnyddio offeryn AI mewn arholiad nac mewn unrhyw asesiad arall lle mae rheolau arholiad yn berthnasol.
  Mae hyn yn cynnwys defnyddio neu feddu ar dechnoleg gudd sy'n cael ei galluogi gan AI, fel sbectol glyfar.
- Mae byrddau arholi yn ystyried hyn yn achos o gamddefnyddio AI, ac mae'n fath o dwyllo.

** Cydnabod – Wrth gynhyrchu darn o waith, os ydych chi'n defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, rhaid i chi roi dyfynodau o amgylch y darn a nodi o ble y daeth. Gelwir hyn yn gyfeirio. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn rhoi cyfeiriadau manwl at unrhyw beth yn eich gwaith nad yw yn eich geiriau eich hun, er enghraifft *ChatGPT 3.5 (https:// openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2025.*

OS BYDDWCH YN DEFNYDDIO OFFERYN AI, NI ALLWCH GAEL MARCIAU AM UNRHYW GYNNWYS A GYNHYRCHIR GAN YR OFFERYN, OHERWYDD NID EICH GWAITH EICH HUN YDYW.

Os caniateir i mi ddefnyddio AI, beth sy'n cael ei ystyried yn torri'r rheolau?

Mae camddefnyddio AI yn cynnwys:

- defnyddio offeryn AI mewn arholiad neu asesiad lle nad yw wedi'i ganiatáu; a/neu
- defnyddio offeryn AI i greu gwaith ac yna honni mai eich gwaith eich hun ydyw.

Gall camddefnyddio AI arwain at ganlyniadau difrifol, gan gynnwys y posibilrwydd o gael eich diarddel.

Sut i wneud yn siŵr nad ydych yn camddefnyddio AI

CYDNABOD

Os caniateir i chi ddefnyddio offeryn AI yn eich asesiad (cofiwch wirio!), rhaid i chi wneud yn canlynol:

- cyfeirio at yr offeryn AI rydych wedi'i ddefnyddio
- rhoi dyddiad pan gynhyrchodd yr offeryn AI y cynnwys
- rhoi manylion am sut y gwnaethoch ei ddefnyddio
- cadw sgrinluniau o'r hyn y gwnaethoch ofyn neu gyfarwyddo'r offeryn AI i'w wneud, yn ogystal â'r atebion a gynhyrchwyd ganddo, a chyflwynwch y rhain ynghyd â'ch gwaith.

DATGAN

- Cofiwch lofnodi'r ffurflen datganiad wrth gyflwyno eich gwaith ar gyfer yr asesiad terfynol.
- Drwy lofnodi'r ffurflen datganiad, rydych yn cadarnhau i'ch athro ac i'r corff dyfarnu mai eich gwaith eich hun yw'r holl waith rydych yn ei gyflwyno.
- Os ydych wedi defnyddio offeryn AI, rhaid i chi ddatgan*** eich bod wedi'i ddefnyddio cyn llofnodi'r ffurflen datganiad!

***Datgan – cyn i chi gyflwyno eich gwaith i'w farcio, bydd y corff dyfarnu fel arfer yn gofyn i chi lofnodi datganiad dilysu yn cadarnhau eich bod wedi darllen a dilyn y rheoliadau hyn.

GWIRIADAU TERFYNOL | Cofiwch y rheolau | Gofynnwch i'ch athrawon | CYDNABOD a DATGAN

YN WEITHREDOL O 1 MEDI 2026